## Paratoi Addysg ar gyfer y dyfodol yn Y Drindod: anghenraid entrepreneuraidd Cael effaith yn 2021

Dechreuodd y flwyddyn mewn cyfnod clo unwaith eto oedd yn golygu bod yn holl weithgarwch yn parhau ar-lein. Gwnaeth paratoi'r Arolwg Rhyngweithiad Addysg Uwch-Busnes a Chymuned, a estynnwyd i fis Mawrth 2021, ddatgelu arwyddion calonogol o wydnwch, arloesi ac effaith, gan gofnodi bod 784 o fusnesau a ddechreuwyd gan raddedigion yn dal i fasnachu am dros 3 blynedd. Eleni fe wnaethom gefnogi 45 o fusnesau i ddechrau masnachu. Mae'r Drindod yn cydnabod a dathlu gwydnwch, dyfeisgarwch a gwaith caled ein hecosystem entrepreneur cyn-fyfyrwyr graddedig. Amlygodd ein His-ganghellor werth entrepreneuriaeth i'n heconomi.





Gwnaeth ein Swyddogion Menter mentrus gwrdd â staff a myfyrwyr i adnabod anghenion a datblygu cyngor ymatebol creadigol, cyfleoedd dysgu a phrofiadau i hyrwyddo entrepreneuriaeth a menter yn ffactorau allweddol i addysg a chyflogadwyedd graddedigion. Mae gwella o'r pandemig a'r anghenion ac amgylchiadau newydd y mae hyn yn eu creu wedi amlygu'r angen am ymatebion arloesol, cydweithredol a chreadigol i faterion a heriau ac wedi cynyddu'r awch am gefnogaeth a chyngor ar sut i ymateb. Mae'r Drindod wedi parhau i ddefnyddio cryfder, creadigrwydd ac ewyllys da ei hecosystem o gyn-fyfyrwyr graddedig a mentrau lleol, gan eu gwahodd i chwarae rhan weithredol ym mhrofiad myfyrwyr, gan greu cysylltiadau byd go iawn ac amlinellu cyfleoedd y dyfodol i fyfyrwyr, gan hyfforddi a mentora myfyrwyr i ddatblygu'r sgiliau a ffordd o feddwl y bydd arnynt eu hangen.

Bu Wythnos Entrepreneuriaeth y Byd yn llwyddiant mawr, a chyflwynwyd gweithdai a gweminarau ar ystod eang o bynciau, gan ymgysylltu â 147 o fyfyrwyr.

### Gweithio mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru ac wedi'i seilio ar yr ymchwil

Mae'r Drindod yn falch iawn i fod wedi cael ein harddangos mewn papur ymchwil, 'Education for Social Change: The Case of Teacher Education in Wales', a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf, yn archwilio IICED Y Drindod, fel astudiaeth achos sydd, yn ei dro, yn cydnabod Cymru fel arweinydd ym maes addysg entrepreneuraidd.



sustainability MDPI

*Article*

**Education for Social Change: The Case of Teacher Education in Wales**

Rebecca Weicht [1] and Svanborg R. Jónsdóttir [2,*]

[1] Department of Strategy, Enterprise and Sustainability, Manchester Metropolitan University, All Saints, Manchester M15 6BH, UK; r.weicht@mmu.ac.uk
[2] School of Education, University of Iceland, Stakkahlíð 1, Reykjavík 105, Iceland
* Correspondence: svanjons@hi.is

**Abstract:** Entrepreneurial education offers valuable opportunities for teachers to foster and enhance creativity and action competence, which are also important for sustainability education. The University of Wales Trinity Saint David (UWTSD) is a leader in the development of entrepreneurial education in teacher education both in Wales and internationally. The objective of this article is to shed light on how an entrepreneurial education approach can help foster social change. The aim of this study is to learn from teacher educators at UWTSD about how they support creativity, innovation, and an enterprising mindset in their learners. A case study approach is applied. By analysing documentary evidence such as module and assignment handbooks, we explore how teacher educators at UWTSD deliver entrepreneurial education for social change. Our findings indicate that UWTSD's development of entrepreneurial education in teacher training has enabled constructive learning, cultivating creativity and action competence. We provide examples that display how the intentions

Mae’r Brifysgol yn parhau i fanteisio ar fusnesau lleol a chyn-fyfyrwyr sy’n fodelau rôl i gefnogi israddedigion i wneud cysylltiadau rhwng eu hastudiaethau a’u bywyd gwaith yn y dyfodol. Nid yn unig y mae’r naratifau profiad uniongyrchol grymus hyn yn berthnasol ac ystyrlon, od maent hefyd yn ysbrydoliaeth enfawr i fyfyrwyr wrth iddynt glywed straeon cyfoethog ac amrywiol gan entrepreneuriaid a fu unwaith yn eistedd yn eu seddi nhw.

Darparodd Gareth Thomas o Business In Focus (un o raddedigion Ysgol Fusnes Caerfyrddin 2016), sesiwn ar ei brofiadau ers graddio.  Ers cwblhau ei MSc mewn Rheoli Adnoddau Dynol, Gareth bellach yw Cydlynydd Ymgysylltu Hwb Mentergarwch S4C. Enghreifftiau gwirioneddol ysbrydoledig o ble gall addysg y Drindod eich cymryd chi.

**Rachael Wheatley** rachael@waters-creative.co.uk (Model Rôl Syniadau Mawr)

Agorwyd y digwyddiad gan Rachael, o Waters Creative, gyda sgwrs a oedd yn llawn cyngor ac awgrymiadau ar gyfer y rhai sy’n dymuno gweithio’n llawrydd, ynghyd ag arweiniad i fyfyrwyr sy’n dymuno gweithio i stiwdio greadigol.


Cymerodd myfyrwyr rhan yn Wythnos Cychwyn Busnesau yr Haf gan ennill mewnwelediad, sgiliau a phrofiad ym maes cynhyrchu a gweithredu syniadau.




**Mae creadigrwydd ac arloesi wrth wraidd cenhadaeth Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (Y Drindod) i wella cyflogadwyedd graddedigion a nifer y busnesau a gychwynnir gan raddedigion.**

**Adeiladu brand personol myfyrwyr ar gyfer cyflogaeth gynaliadwy.**
Mewn ymateb i’r pandemig, gwnaeth ein gweithgareddau ar-lein gynnwys cynllunio modylau o ran ambarél cyfoethogi ‘Priodoleddau Graddedigion’. Er bod cynnwys craidd, sy’n wir am unrhyw raglen astudio, fe’u cyflwynir ar gyfer y ddisgyblaeth a’r cyd-destun.  O ganlyniad, darparodd ein ACE, Ian Simmons, y digwyddiad grymuso gwerth ychwanegol hwn i 40 myfyriwr yr ail flwyddyn, fel elfen o’u modiwl Ysgogwyr Newid.

Yng nghynhadledd Nexus eleni, gwnaeth Kath Penaluna, Felicity Healey-Benson a Paul Ranson ddarparu sesiynau’n amlygu’r Fframwaith EntreComp i Ddarlithwyr Y Drindod. Hefyd, darparwyd sesiwn o’r enw ‘Entrepreneurial Resilience – Strengthening the Educator and Graduate Pipeline’






Rydym wedi recriwtio cyfarwyddwr rhaglen ein rhaglenni twristiaeth yn ACE, i gefnogi'r nifer cynyddol o fyfyrwyr twristiaeth a graddedigion sy'n ystyried dechrau eu busnes eu hunain. Mae Ben Room, un o'n graddedigion a Model Rôl Syniadau Mawr, yn cydweithio gyda ni i gymryd hyn ymlaen.

### Mae dysgu arloesol a chydweithredu â diwydiant yn ffocws allweddol

Arddangosodd Y Drindod **gynhyrchion hud Anifeiliaid! PreMedPrep i wella profiadau meddygol plant.** Er na chafodd ei amlygu'n benodol yn yr adroddiad, mae Dylan Williams Evans yn cefnogi Adam Higgins gyda chyfarfodydd 1 i 1 a chyfeirio at sefydliadau cefnogol eraill. Prosiect ar y cyd rhwng [Canolfan Arloesi Technolegau Cynorthwyol <https://www.uwtsd.ac.uk/atic/>](https://www.uwtsd.ac.uk/atic/) (ATiC) Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (Y Drindod) ac un o'i myfyrwyr Meistr, i wella profiadau meddygol plant.




Mae ATiC yn gweithio gydag Adam Higgins, myfyriwr MSc Dylunio Diwydiannol wrth iddo ddatblygu ei ystod o gynhyrchion PreMedPrep, sydd wedi'u bwriadu i baratoi plant ymlaen llaw ar gyfer gweithdrefnau gofal iechyd cyffredin megis profion gwaed, archwiliadau'r galon a thymheredd, a nebiwlyddion ar gyfer derbyn meddyginiaeth. "Yn aml gall gweithdrefnau gofal iechyd achosi i blant deimlo pryder, ofn a straen oherwydd 'ofn yr hyn sy'n anhysbys'," meddai Adam, sy'n 22 oed, o Riwbeina yng Nghaerdydd, sy'n un o raddedigion Dylunio Cynnyrch Coleg Celf Abertawe Y Drindod. "Gall diffyg dealltwriaeth plant o'r hyn sy'n digwydd iddynt arwain at brofiad negyddol o weithdrefnau meddygol; gall achosi ofn a phryder ac effeithio ar eu hymweliadau meddygol yn y dyfodol. "Gall fod goblygiadau parhaus i hyn a bydd plant yn aml yn gwrthod triniaethau yn y dyfodol, sy'n gallu golygu bod gweithdrefnau'n cymryd yn hirach a gwneud gwaith gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn fwy heriol."

### Mae gan Y Drindod enw da hirdymor ym maes datblygu entrepreneuraidd creadigol

Mae ein cyn-fyfyrwyr entrepreneuraidd yn parhau i ddarparu cymorth ac ysbrydoliaeth i entrepreneuriaid dechreuol, yn arbennig o fewn y diwydiannau creadigol. Dyma un o gomisiynau diweddar Karl Mountford a rannwyd ar Twitter Karl a ddarparodd y ddelwedd o Kath y mae hi'n ei defnyddio i gyflwyno ei hun yn ei chyflwyniadau PowerPoint.







**Dathlu Diwrnod Eiddo Deallusol y Byd, digwyddiad a gynhelir ar y cyd ag Enterprise Educators UK a Phrifysgol Loughborough.**

Mae Kath Penaluna wedi bod yn hyrwyddwr hirdymor o godi ymwybyddiaeth o eiddo deallusol ymhlith dysgwyr, graddedigion a staff. I gyfrannu at ymyriadau polisi, fe'i gwahoddwyd i fod yn aelod o Grŵp Prifysgolion a Cholegau Swyddfa Eiddo Deallusol y DU, gyda chylch gwaith i ddatblygu gweithgareddau addysgol. Yn draddodiadol, mae'r UKIPO wedi gweithio gyda Swyddogion Trosglwyddo Tech Prifysgol i ddosbarthu'r rhaglenni addysgol sydd ar gael, lle bo ymchwil mae Kath wedi'i gynnal yn awgrymu bod gan addysgwyr menter ran i'w chwarae.

Ymunodd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant â Phrifysgol Vamk yn y Ffindir i gyd-gyflwyno gweithdy ar-lein ynghylch "Sut i gynnig syniadau" ar gyfer gweithwyr proffesiynol o'r sectorau creadigol a diwylliannol. Cynhaliwyd y digwyddiad dwy awr o hyd ar 11 Mehefin, gan ddod â gweithwyr creadigol proffesiynol o'r Ffindir a Chymru at ei gilydd, a darparu cyfle i brofi arddangosiad hyfforddi mewn cyfarfod ar-lein anffurfiol. https://www.uwtsd.ac.uk/news/press-releases/press-2021/uwtsd-co-delivers-an-online-workshop-with-finlands-xamk-university-for-the-deus-project.html


## Cydweithredu i gefnogi cychwyn busnesau newydd



Yn ganolog i hynny, ac wedi'i lleoli ar gampws Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin, mae Canolfan S4C Yr Egin, sy'n ysbrydoli creadigrwydd a dychymyg, gan feithrin talent i'r dyfodol. Mae pencadlys S4C a nifer o fusnesau eraill yn y sector creadigol hefyd wedi'u lleoli yn Yr Egin. Yn ogystal â gofod swyddfa a chyfleusterau recordio cerddoriaeth o ansawdd uchel, mae gan Yr Egin sgrin werdd o'r radd flaenaf a chyfleusterau dethol lluniau, ynghyd â mannau desgiau poeth a chysylltiadau helaeth o fewn cymuned greadigol y rhanbarth. Yn ôl Steffan Rhys Williams, sydd â stiwdio gerddoriaeth yn y ganolfan, mae'r Egin yn darparu cyfuniad o gyfleusterau o'r radd flaenaf a chyfleoedd i rwydweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill yn y sector creadigol.

Cymorth busnes a rhwydweithio ar gyfer busnesau newydd a ddechreuwyd gan fyfyrwyr yng Nghymru - digwyddiad ar y cyd rhwng Y Drindod Dewi Sant a'r Ffederasiwn Busnesau Bach ar 30ain Mehefin 2021. Cysylltodd Dylan gyda'r holl siaradwyr a sefydliadau perthnasol i gyflwyno'r digwyddiad hwn ar gyfer myfyrwyr/graddedigion Y Drindod ac roedd ar agor i Fyfyrwyr/Graddedigion Cymru a'u hyrwyddo trwy Newyddlen FfBB. Caniataodd y digwyddiad i fusnesau newydd glywed gan ddarparwyr cymorth, gan gynnwys siaradwyr o Fusnes Cymru, Syniadau Mawr Cymru, Ymddiriedolaeth y Tywysog, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, a'r Drindod Dewi Sant, yn ogystal â chlywed am brofiadau entrepreneur ifanc llwyddiannus.

## Cydweithio LLEOL



Taniodd y digwyddiad 'Hack for Change' greadigrwydd a chydweithredu cymunedol i adnabod a mynd i'r afael â materion a heriau o arwyddocâd lleol.



Galluogodd yr her Labordy Byw i'r Drindod Dewi Sant gyfrannu at wneud canol dinas Abertawe yn lle bywiog a ffyniannus i fod, ar ôl Covid. Mae DeuS yn brosiect Erasmus+ a gyllidir gan yr Undeb Ewropeaidd, ac mae'n fenter Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol ranbarthol, gyda'r nod o gyd-greu dull dysgu a hyfforddiant ar draws Ewrop ym meysydd dylunio, meddwl yn feirniadol, ac entrepreneuriaeth. Caiff yr Her Labordy Byw ei chynnal dros bedair sesiwn ym mis Gorffennaf gan ddod â thîm o weithwyr creadigol proffesiynol at ei gilydd i weithio'n gydweithredol ar thema benodol, a bydd yn archwilio 'Adeiladau, Llwybrau a Hunaniaeth: Sut gall y Drindod Dewi Sant gyfrannu at wneud canol dinas Abertawe yn lle bywiog a ffyniannus i ymweld ag ef a threulio amser ynddo?'

Dyfarnwyd Gwobr Arloeswyr Ysgolion EntreCompEdu i ysgol yn Llanelli i gydnabod eu hangerdd a'u brwdfrydedd dros eu taith ddysgu entrepreneuraidd.

Estynnodd Ysgol Gynradd Dafen groeso i Lee Waters, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, Nia Griffith, Ysgrifennydd Gwladol yr Wrthblaid dros Gymru, Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Caerfyrddin, Dr Christine Jones, Deon Dros Dro yr Athrofa Addysg a'r Dyniaethau yn Y Drindod, a hyrwyddwr busnes lleol, George Parker o Parker Brothers (Contractors), mewn digwyddiad deuddydd i arddangos eu sgiliau entrepreneuraidd.




## Cydweithio cenedlaethol

Mae ein hymrwymiad yn cynnwys cyllidebu a phartneru gyda diwydiant. Er enghraifft, buddsoddi mewn ‘Ship Shape’, fel ‘mewn-ddeillio’, menter sy’n cysylltu cyfalaf menter i anghenion sylfaenwyr. Nhw yw enillwyr 2021 gwobrau dechrau busnesau FinTech Cymru, ac mae cydnabyddiaeth ryngwladol o’u busnes arloesol wedi arwain at werthusiad o £2.5 miliwn.




Darparwyd cyflwyniadau EEUK gan staff Y Drindod gan gyflwyno pynciau ar:

“Entrepreneurship and the Sustainability Challenge: the need for a systemic approach to Entrepreneurship Education” - Kirby; Healey-Benson a Penaluna

Dulliau asesu’r 21ain ganrif ar gyfer cymwyseddau’r 21ain ganrif” – Young; Israel




## Cydweithredu Ewropeaidd

1. **Sut all ysgolion a phrifysgolion gyflymu a dyfnhau Addysg Entrepreneuraidd? Cyfranogiad Y Drindod mewn trafodaeth Ewropeaidd, wedi’i gynnal gan JA Europe**

Caiff ein gweithgareddau a ariennir gan Lywodraeth Cymru eu cyfoethogi gan y ddealltwriaeth a geir drwy ymgysylltu â'r gymuned Ewropeaidd. Mewn cydweithrediad ag Elin McCallum (cyn-Reolwr Menter Llywodraeth Cymru), mae'r Drindod yn arwain ar EntrCompEdu, prosiect a ariennir gan Erasmus, yn hyfforddi athrawon i gyfoethogi capasiti entrepreneuraidd eu dysgwyr. Yn ogystal â Kath Penaluna, sef arweinydd y prosiect, mae tri aelod arall o'r tîm IICED yn cyfrannu at ddarpariaeth y prosiect.





## Cydweithredu Rhyngwladol



Mae'r Drindod Dewi Sant yn gweithio gyda Choleg St Michael's yn Vermont i gynnig yr Ysgolion Haf Cynaliadwyedd Rhyngwladol. Mae'r profiadau datrys problemau bywyd real hyn yn hysbysu myfyrwyr ymweld am wahanol safbwyntiau cynaliadwyedd yng Nghymru trwy lensys diwylliannol, ecolegol, gwleidyddol, daearyddol, ac artistig


## Cydweithio ar gyfer datblygu addysgwyr entrepreneuraidd

Hyrwyddodd Y Drindod greadigrwydd mewn dysgu wrth i Paul Ranson gyflwyno sesiwn yn y sesiwn caffi wythnosol EntrCompEdu poblogaidd ar addysgu creadigrwydd








Dathlwyd y gymuned ryngwladol a adeiladwyd trwy EntrecompEdu mewn cydweithrediad â'r Cyd-gomisiwn Ymchwil a Sefydliad Hyfforddi Ewrop, wedi'i gynrychioli'n weledol ar fap i ddangos cyrraedd ein rhwydweithiau addysgwyr esblygol.










**Recriwtio Hyrwyddwyr Academaidd Menter**

**Wythnos 'Made for Industry' - sesiwn fenter, 10 Mawrth.**

Mewn cydweithrediad â Jacqui Jones, ein ACE Twristiaeth a Lletygarwch a benodwyd yn ddiweddar, trefnodd Dylan sesiwn fenter, fel elfen o'r Wythnos 'Made fr Industry', ar gyfer ysgolion. Gwnaeth y digwyddiad ar-lein gynnwys cyflwyniad gan y fyfyrwraig Jessica Wakely, a rannodd ei stori am ddatblygiad Harbour Lights Spirits, y gefnogaeth academaidd a gafodd gan Jacqui i integreiddio datblygiad y busnes yn rhan o'i hastudiaethau a'r mentora busnes gan Dylan.





Hyrwyddwyr Menter Academaidd ac academyddion eraill sydd wedi dangos diddordeb mewn Menter ac Entrepreneuriaeth i hyrwyddo ac annog ymgysylltu â'r Clwb Menter newydd. Rydym wedi gweithio'n agos gydag aelodau staff academaidd unigol i hyrwyddo ymgysylltu â myfyrwyr a'u cynnwys. Cafodd y digwyddiad ei hyrwyddo trwy'r gwahanol sianeli myfyrwyr fel y Bwletin Myfyrwyr wythnosol ar 3ydd Rhagfyr. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y clwb ar 8fed Rhagfyr ar-lein lle bu gennym nifer o fynychwyr oedd â diddordeb mewn gweld beth oedd yn cael ei drafod ac i roi eu barn ar sut y r hoffent weld y Clwb Menter yn datblygu yn y dyfodol.

## Crynodeb

I grynhoi, holl ddiben taith entrepreneuraidd myfyrwyr Y Drindod yw meithrin entrepreneuriaeth o fewn ein cymunedau amrywiol; fe ddysgwn gan ein pobl; myfyrwyr; graddedigion, a'n partneriaid, sy'n ein cynnal, ac yn ein tro rydym ni'n cynnal eraill trwy ein mewnwelediadau a chymorth rhagweithiol ar gyfer yr ecosystemau rydym yn gweithio o'u mewn.

## Cysylltwch a chydweithiwch â ni

Gall myfyrwyr, graddedigion, staff neu aelodau'r gymuned gysylltu â ni'n rhwydd gydag un clic.

i: [enterprise@uwtsd.ac.uk](mailto:enterprise@uwtsd.ac.uk)

